**PWYLLGOR CYSWLLT CYMUNEDOL**

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 23 Mawrth, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.M. Hanks (Cadeirydd); Cynghorydd M.R. Wilson (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, R.M. Birch, S. Campbell, C.A. Cave, N.P. Hodges, H.M. Payne ac S.D. Perkes.

Cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned: Cynghorwyr S. Hodges (Cyngor Tref y Barri); J. Andrew (Y Bont-faen gyda Chyngor Tref Llanfleiddan); G. Thomas (Cyngor Tref Llanitud Fawr); M. Cuddy (Cyngor Tref Penarth); B. Morris (Cyngor Cymuned Tregolwyn); K. Hatton (Cyngor Cymuned Dinas Powys); H. Osbourne (Cyngor Cymuned Llancarfan) ; R. Thomas (Cyngor Cymuned Llandw); S. Bonnar (Cyngor Cymuned Llanfair); P. Wilson (Cyngor Cymuned Llan-gan); M. Narusberg (Cyngor Cymuned Llan-faes); G. Marks (Cyngor Cymuned Llanfihangel-y-pwll a Lecwydd); G. Kellen (Cyngor Cymuned Pendwulwyn); S.M. Toker (Cyngor Cymunedol Sain Tathan); M. Jeffreys (Eilydd) (Cynbgor Cymuned Sain Dunwyd); W. Howells (Cyngor Cymunedol Sain Siorys a Llansanffraid-ar-Elái); I. Perry (Cyngor Cymuned San Nicolas a Thresimwn); N. Parry (Cyngor Cymuned Sili a Larnog), M. Harvey (Cyngor Cymuned Gwenfo) a C. Hawkins (Cyngor Cymuned y Wig).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr C.P. Franks, E. Goodjohn, W.A. Hennessy, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles), M.G.J. Morgan, E. Penn ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd).

866 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

867 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr A. Asbrey ac S. Haines a'r Gynghorwyr A. Phillips (Cyngor Cymuned Llanbedr-y-fro) ac A. Thomas (Cyngor Cymuned Llanddunwyd).

868 COFNODION –

CYTUNWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Hydref, 2022 fel cofnod cywir.

869 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd S. Campbell fuddiant personol yn Eitemau Agenda 7 ac 8. Roedd y Cynghorydd Campbell yn aelod o'r grŵp briffio mewnol trawsbleidiol ar gyfer yr Adolygiad Ffiniau Cymunedol a helpodd i gynhyrchu'r adroddiad a roddwyd gerbron y Pwyllgor. Arhosodd y Cynghorydd yn y cyfarfod ar gyfer yr eitem.

870 GWASANAETH HEDDLU DE CYMRU - DIWEDDARIAD LLAFAR –

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf gan yr Arolygydd Mark Henderson ar ddeilliannau chwech o’r ymgyrchoedd heddlu llwyddiannus diweddar sy’n gyhoeddus, sef:

- Darganfod ac atafaelu cynnwys fferm canabis mawr gydag amcanwerth stryd o dair miliwn o bunnoedd a ddarganfuwyd ar Heol Holltwn yn Y Barri o ganlyniad i’r gwasanaethau cyhoeddus yn ymchwilio i doriadau trydan cyson yn y cyffiniau.
- Cadwyd dau berson Prestige Driveways yn y ddalfa ar gyhuddiadau o fygwth a masnachu twyllodrus.
- Gwelwyd lleihad mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ardal Heol Holltwn y Barri a achoswyd gan bobl ifanc yn dilyn gwaith partneriaeth rhwng Cyngor Bro Morgannwg, rhieni, ac ysgolion lleol. Roedd gwaith eto i’w wneud ar y mater ond cafwyd gwelliant gweladwy.
- Roedd Grwpiau Gwylio Cyflymder Cymunedol wedi’u hailgyflwyno yn dilyn cwblhau asesiadau risg angenrheidiol.
- Roedd gwaith bellach ar y gweill i baratoi ar gyfer *Operation Elstree* mewn perthynas â’r economi haf. Roedd gwaith partneriaeth yn digwydd gyda Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Badau Achub (RNLI) a Thrafnidiaeth Prydain i wella’r prif negeseuon i’r ymwelwyr y disgwylir iddynt fwynhau’r economi tymhorol.
- Cadwyd unigolyn yn y ddalfa am gyfres o ladradau o dai yn ardal Bro Morgannwg.

Yn dilyn cyflwyniad yr Arolygydd, a chwestiynau dilynol gan y Pwyllgor, ychwanegodd yr Arolygydd y pwyntiau canlynol o gyngor:

- Ystyriwyd bod tân diweddar mewn perthynas â cherbyd cwmni Iceland ar Heol Holltwn yn Y Barri o ganlyniad i ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr un cyffiniau. Adroddwyd pum achos o gerbydau ar dân yn ardal Y Barri hyd yn hyn yn 2023 ond roedd hi’n ymddangos bod cysylltiad rhyngddyn nhw

ac ni chredir eu bod yn achosion unigol nac yn nodi patrwm cynyddol o ymddygiad cymdeithasol.
- Fe fydd ymateb gan swyddogion gwasanaeth perthnasol yn cael ei geisio mewn perthynas â dwyn plwm yng nghanol tref ac ardal neuadd y dref yn Y Bont-faen yn dilyn cyflwyno ffilm teledu cylch cyfyng a gwybodaeth am blatiau rhifau a'i adrodd yn ôl i'r Cynghorydd John Andrew o Gyngor Tref Y Bont-faen.
- Atafaelwyd nifer o gerbydau fel rhan o *Operation Waxby* i leihau'r achosion o lampio (hela anifeiliaid yn y nos) yng ngorllewin y fro. Rhagwelwyd y byddai achosion o'r drosedd yn lleihau dros y misoedd nesaf wrth i'r dydd ymestyn.
- Mewn ymateb i bryderon trigolion ynglŷn â defnydd ffordd osgoi Llanilltud Fawr fel trac rasio gan geir a beiciau modur yn yr oriau mân rhwng Llandŵ a goleuadau Trebefered, fe fydd Swyddogion yr Heddlu'n cysylltu â Chyngor Bro Morgannwg a chydweithwyr yr heddlu traffig i batrolio ar yr adegau pan oedd y gweithgarwch aflonyddol yn digwydd.
- Fe fyddai'r cydweithwyr yn yr Heddlu Traffig hefyd yn cael eu hysbysu o'r aflonyddwch sŵn a achosir gan gerbydau gyda egsôsts wedi'u haddasu yn gyrru'n ddi-hid ar hyd yr A48 ac ardal Sain Siorys yn oriau mân y bore.
- Yn yr un modd, fe fyddai pryderon am gyflymder traffig yn cael eu codi gyda swyddogion gwasanaeth perthnasol, mewn perthynas â cherbydau'n goryrru ar hyd ffordd fynediad ogleddol Llanfdaes.

Gan nad oedd sylwadau na chwestiynau pellach, fe wnaeth y Pwyllgor, yn dilyn hynny

CYTUNWYD – Y dylid diolch i'r Arolygydd Henderson am ei amser a'i ddiweddariad llafar.

871 GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU - DIWEDDARIAD LLAFAR –

Cyflwynodd Rheolwr Grŵp Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Mr John Treherne, ddata ystadegol i'r Pwyllgor ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2021 hyd at 7 Mawrth 2023, ac yn benodol y diweddariadau ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor ym mis Hydref 2022, fel a ganlyn:

- **Tanau** – Roedd cyfanswm y tanau wedi cynyddu o 300 y llynedd yn 2021/22 i 358 hyd yn hyn yn 2022/23 – cynnydd o 58 (19%). Roedd tanau anfwriadol yn cyfrif am 44% o'r tanau gyda tanau bwriadol yn cyfrif am 56%. Roedd Bro Morgannwg, felly, wedi profi mwy o danau bwriadol yn y flwyddyn gyfredol 2022/23. Tanau sbwriel oedd yn gyfrifol am 119 (60%) o'r 199 tân bwriadol gyda 93 ohonyn nhw ar dir gorsaf Y Barri. Cafwyd hefyd 36 o danau gwair yn y flwyddyn gyfredol o'i gymharu â 41 (-12%) y llynedd a 12 o danau cerbydau ffordd o'i gymharu ag 11 (+9%) y llynedd. Roedd nifer y Tanau Damweiniol mewn Cartrefi (TDC) wedi disgyn o 57 y llynedd i 41 (-28%) hyd yn hyn yn y flwyddyn gyfredol. Roedd 23 (56%) o'r tanau wedi dechrau yn y gegin gyda choginio yn gyfrifol am 12 (29%) o'r achosion. Eitemau llosgadwy yn rhy agos at ffynhonnell gwres oedd yn

cyfrif am 11 (27%) o'r achosion. Mewn 16 (39%) o'r 41 TDC, doedd dim larwm yn bresennol. Mae'r ganran hon wedi codi 19 (33%) o 57 y llynedd.

- **Galwadau Diangen** – Roedd cyfanswm y Galwadau Diangen wedi cynyddu o 613 y llynedd i 631 hyd yn hyn yn 2022/23. Roedd hyn yn gynnydd o 18 (+3%). Bu hefyd cynnydd mewn Galwadau Maleisus, gyda 31 hyd yn hyn eleni o'i gymharu ag 14 y llynedd.
- **Galwadau Gwasanaeth Arbennig** – Roedd damweiniau traffig ar y ffordd wedi cynyddu gan 6 o 75 y llynedd i 81 (+8%) hyd yn hyn eleni. Roedd y rhan fwyaf o alwadau'n ymwneud â sicrhau diogelwch cerbyd/lleoliad (53,65%). Mae yna gynnydd wedi bod yn ngalwadau Gwasanaethau Arbennig eraill o 225 i 248 (+10%) hyd yn hyn yn y flwyddyn gyfredol o'i gymharu â'r llynedd gyda Chynorthwyo asiantaethau eraill (53) a Llwyddo i gael mynediad (38) yn cyfrif am y mwyafrif o alwadau. Cafwyd 11 galwad i gynorthwyo cleifion Bariatrig yn y flwyddyn gyfredol o'i gymharu â 15 y llynedd a 6 galwad at hunanladdiad/ymgais at hunanladdiad o'i gymharu â 4 y llynedd. Cafwyd cynnydd hefyd mewn galwadau am lifogydd eleni gydag 16 galwad o'i gymharu â 4 y llynedd. Derbyniwyd 5 o'r galwadau hynny ynghylch llifogydd ym mis Rhagfyr 2022.
- **Marwolaethau ac anafiadau** – Ni chafwyd unrhyw farwolaethau yn ystod y cyfnod ond fe fu 1 achos o anaf difrifol yn y flwyddyn gyfredol o'i gymharu â 2 y llynedd. Roedd yr anaf difrifol hwnnw yn y flwyddyn gyfredol yn ymwneud ag unigolyn a oedd wedi goranadlu nwy neu fwg.
- **Gwiriadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref** – Cwblhawyd 938, 24 GDC diwygiedig, 22 a wrthodwyd gan y preswylydd, 6 a wrthodwyd gan personél a 21 nad oedd modd cysylltu â nhw.
- **Ymosodiadau ar Griwiau** – Bu 3 ymosodiad ar griwiau yn y flwyddyn hon o'i gymharu ag 1 y llynedd. Roedd 2 ohonyn nhw yn ward Gibbonsdown yn Y Barri (Ebrill ac Awst) â'r ymosodiad arall yn ward Cadog o'r Barri dros gyfnod Calan Gaeaf ym mis Hydref.

Yn dilyn cyflwyniad y Rheolwr Grŵp, a chwestiynau dilynol gan y Pwyllgor, ychwanegodd y Rheolwr y pwyntiau canlynol o gyngor:

- Ni chafwyd cynnydd ystadegol nodedig gan y gwasanaeth mewn perthynas â thanau cerbydau bwriadol yn ardal Y Barri. Roedd y gwasanaeth ar hyn o bryd yn edrych ar opsiynau o ran ymateb a mynd i'r afael â thanau cerbydau trydan, gan fod y rhain yn anoddach i'w diffodd.
- Roedd sawl un o'r galwadau yr ymatebodd y gwasanaeth iddyn nhw yn dymhorol ac, felly, roedd tueddiadau o flwyddyn i flwyddyn yn amlwg. Caiff data cymharu ar gyfer y blynyddoedd diwethaf eu danfon ymlaen at y Cynghorydd Keith Hatton i Gyngor Cymuned Dinas Powys yn dilyn y cyfarfod, yn dilyn cais.
- Ymysg enghreifftiau o alwadau di-sail Domestig cafwyd pethau fel cortynnau ymateb brys yn cael eu tynnu trwy gamgymeriad neu larymau tân/carbon monocsid yn profi'n sensitif i gyfarpar bach trydanol yn cael ei adael ymlaen. Ymysg enghreifftiau o alwadau di-sail Masnachol roedd pethau megis ymdrechion maleisus i geisio sbarduno uned larwm torri gwydr mewn adeilad cyhoeddus neu unigolyn yn syrthio yn erbyn pwynt larwm mewn ysbyty neu fusnes neu ymgymryd â gwaith sy'n cynhyrchu gwres neu stêm digonol i danio larwm.

- Hyfforddwyd staff y gwasanaeth i herio galwadau'n briodol er myn adnabod galwad ffug neu faleisus, ond fe fyddai'r gwasanaeth bob amser yn cynnull waeth beth fo'r pryderon gan y rhai sy'n delio â'r galwadau. Caiff data ar nifer y galwadau ffug/maleisus ei ddanfon ymlaen at y Cynghorydd Julie Aviet o Gyngor Bro Morgannwg yn dilyn y cyfarfod, yn unol â chais.

Gan nad oedd sylwadau na chwestiynau pellach, fe wnaeth y Pwyllgor, yn dilyn hynny

CYTUNWYD – Y dylid diolch i'r Rheolwr Grŵp am ei amser a'i ddiweddariad llafar.

872 ADLEOLI A MODERNEIDDIO SAFLE AMWYNDER LLANDŴ – DIWEDDARIAD –

Cafwyd cyflwyniad Powerpoint i'r Pwyllgor gan Reolwr Ailgylchu ac Isadeiledd Gwasanaethau Cymdogaethau yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â sefydlu Canolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC) Ardal Wledig y Fro.

Hysbysodd y Swyddog y Pwyllgor am y trefniadau presennol ar gyfer y safle sydd wedi'i leoli ar hyn o bryd ar Stâd Fasnachol Llandŵ (SFLl), yn ogystal â data ar faint a mathau y deunydd a ailgylchwyd ar y safle presennol yn y cyfnod 2021/22. Darparodd y Swyddog hefyd ddata cymharol ar hyn ar gyfer ail safle CAGC y Cyngor, a leolir yn Stâd Fasnachu'r Iwerydd (SFI) yn Y Barri, a ddangosodd ffigwr tunelledd o 77% i SFI a 23% ar gyfer SFGLl, yn ogystal â'r nifer o archebion a wnaed ar gyfer y cyfnod 2022/23 dros y ddwy safle, sef 30,344.

Yna, aeth y Swyddog ymlaen i hysbysu'r Pwyllgor am yr ystyriaethau/meini prawf angenrheidiol y mae'n rhaid eu hateb ar gyfer CAGC newydd yn ardal wledig y Fro, gan gynghori'r Cyngor mai cyfyngedig ydy'r opsiynau o ran safleoedd ledled yr ardal i'w hystyried. Gan eu bod eisoes wedi hysbysebu ar gyfer mynegiannau o ddiddordeb dair gwaith, roedd yr unig opsiwn sy'n parhau dan archwiliad gan y Cyngor hefyd yn ardal Llandŵ, ar dir i'r dwyrain o'r man a glustnodwyd ar gyfer cartrefi ar Ffordd Sutton. O ran cyd-destun, tynnodd y Swyddog sylw hefyd at fanteision a chyfyngiadau y safle olaf hwn sy'n opsiwn.

I gloi, o ran y camau nesaf, hysbysodd y Swyddog fod adran stadau'r Cyngor yn parhau â thrafodaethau ac y byddai unrhyw benderfyniad ar safle newydd yn dal i fod yn destun amryw asesiadau yn cael eu gwneud a sawl caniatâd yn cael ei roi fel bo'n briodol. Byddai unrhyw argymhellion yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i fwrw targed gweithrediadol o 2025/26 ar gyfer y CAGC newydd.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog a'r cwestiynau dilynol a godwyd gan y Pwyllgor, ychwanegodd y Rheolwr Ailgylchu ac Isadeiledd, gyda chefnogaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau'r Amgylchedd a Thai, y pwyntiau canlynol o gyngor:

- Doedd dim rheswm penodol pam na rannwyd sleidiau'r diweddariad Powerpoint cyn y cyfarfod ac fe fyddai Swyddogion yn ymdrechu i rannu sleidiau gyda'r Pwyllgor ymlaen llaw a phan fo angen, o hyn ymlaen.

- Roedd y Cyngor yn dal i fod yn agored i ystyried darnau eraill o dir y tu allan i ardal Llandŵ ac ni wnaed unrhyw benderfyniad hyd yn hyn ar leoliad y safle newydd. Safle Ffordd Sutton oedd yr unig opsiwn ar ôl ar agenda'r Cyngor, fodd bynnag, roedd y Cyngor yn parhau i chwilio am ddarnau eraill o dir.
- Roedd y dasg o ganfod a chymeradwyo safle priodol ar gyfer gwastraff yn ardal wledig y Fro yn un heriol iawn ac roedd y Cyngor eto i ddod o hyd i safle delfrydol. Felly, croesawodd y Swyddogion unrhyw awgrymiadau ynghylch tir y gallai'r Pwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt gan dirfeddianwyr lleol.
- Roedd yr opsiwn o bryniant gorfodol ar gael i'r Cyngor, fodd bynnag, nid oedd hwn yn ddull yr oedd y Cyngor yn barod i'w fabwysiadu ar hyn o bryd.
- Roedd Swyddogion wedi ystyried y cynnydd mewn traffig yn y ddau safle CAGC o'i eiddo yn dilyn cyflwyno costau diweddar i waredu gwastraff gardd (gwyrdd), yn enwedig gan mai gwastraff gardd oedd yr ail fath o wastraff mwyaf cyffredin a adewir yn y safleoedd. Felly, byddai unrhyw safle newydd yn y dyfodol, yn ddelfrydol, wedi'i leoli ger priffordd.
- Roedd Swyddogion yn cydnabod pryderon y Cynghorydd Perry mewn perthynas â thipio anghyfreithlon, gan bod rhaid i drigolion dwyrain y Fro deithio 20 munud bob ffordd i fynd i safle ailgylchu'r Barri neu groesi ffiniau awdurdodau i ymweld â safle Awdurdod Caerdydd oherwydd bod y trigolion o'r farn bod ansawdd safle Llandŵ yn wael. Awgrymodd y Cynghorydd Perry y byddai tair CAGC yn fwy priodol ar gyfer Bro Morgannwg i gwmpasu'r Barri a Phenarth, Gorllewin y Fro a Dwyrain y Fro mewn partneriaeth defnydd â Chaerdydd.
- Ar yr un pwnc, mynegodd y Cynghorydd Cave ei phryderon hefyd ynghylch maint y tipio anghyfreithlon sy'n amlwg wrth ddynesu at CAGC bresennol Llandŵ a'r posibilrwydd fod hyn am barhau ar unrhyw safle newydd yn ardal Llandŵ gan greu'r potensial i weddillion a sbwriel gael eu dwyn ymhellach i'r pentref. Roedd Swyddogion yn cydnabod pryderon y Cynghorydd Cave, gan ddweud y byddai'r holl sylwadau a dderbyniwyd gan y Pwyllgor yn cael eu trosglwyddo i swyddogion ystadau, yn enwedig felly ynghylch clirio gwastraff ar briffyrdd y Cyngor yng nghyffiniau safle presennol Llandŵ.
- Mae'r system ar-lein ar gyfer sicrhau amser penodol i fynd i safleoedd CAGC presennol y Cyngor wedi'i diweddaru yn ystod y misoedd diwethaf, fodd bynnag, fe fyddai'r Swyddogion yn profi ymarferoldeb canfod ac addasu archeb yn sgîl sylwadau'r Cynghorydd Cave.

Gan nad oedd sylwadau na chwestiynau pellach, fe wnaeth y Pwyllgor, yn dilyn hynny

CYTUNWYD – i nodi'r cyflwyniad diweddaru a roddwyd i'r Pwyllgor mewn perthynas â Chanolfan Ailgylchu Gwastraff y Cartref (CAGC) yn y Fro Wledig.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried cynnwys y cyflwyniad ar ystyriaethau presennol y Cyngor a'r camau nesaf mewn perthynas â sefydlu CAGC newydd ar gyfer Gorllewin y Fro.

873 ADOLYGIAD CYMUNEDOL CYNGOR BRO MORGANNWG (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o’r Cabinet ar 17 Tachwedd 2022.

Hysbysodd Prif Weithredwr a Swyddog Canlyniadau’r Cyngor fod y cyfeiriad a’r adroddiad Cabinet atodedig yn darparu cyd-destun ar gyfer yr eitem ddilynol ar agenda’r cyfarfod mewn perthynas ag Adolygiad Cymunedol Bro Morgannwg. Cyflwynwyd y cyfeiriad i’r Cyngor, felly, i beri cau’r cylch adrodd ar gyfer yr eitem a ystyriwyd gan y Cabinet yn flaenorol.

CYTUNWYD - i nodi cyfeiriad y Cabinet ac adroddiad atodedig y Cabinet.

<u>Rheswm dros y penderfyniad</u>

Wedi ystyried cynnwys cyfeiriad ac adroddiad atodedig y Cabinet i sicrhau bod holl aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol o Adolygiad Cymunedol Cyngor Bro Morgannwg a'r broses i'w mabwysiadu ar ddiwedd blwyddyn galendr 2022.

874 ADOLYGIAD ARDAL FFIN GYMUNEDOL CYNGOR BRO MORGANNWG (SCE) -

Cyflwynodd Prif Weithredwr a Swyddog Canlyniadau’r Cyngor yr adroddiad, gyda’r diben o ddiweddaru’r Pwyllgor ar Adolygiad Cymunedol Cyngor Bro Morgannwg, yr oedd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru (“y Comisiwn”) yn ymgymryd ag ef, ac a ddechreuodd ar 20 Ionawr 2023.

Roedd cam cyntaf yr adolygiad yn cynnwys archwiliad a chyfnod o ymgynghori cychwynnol, a ddechreuodd ar 1 Chwefror 2023. Roedd y Comisiwn (a oedd hefyd yn bresennol yn y cyfarfod), yn ceisio ymatebion gan y sawl yr ymgynghorwyd â hwy o bob parti â diddordeb mewn perthynas â’r ffiniau cymunedol cyfredol a’u barn ar unrhyw newidiadau angenrheidiol i greu cymunedau a fyddai’n sicrhau llywodraeth leol effeithiol a hydrin. Dyddiad cau’r cyfnod ymgynghorol cychwynnol oedd 28 Mawrth 2023, erbyn pryd roedd y Prif Weithredwr a’r Swyddog Canlyniadau wedi argymell y dylai pob sylw gan Gynghorau Tref a Chymuned gael eu cyflwyno.

Gosododd yr adroddiad awgrymiadau yn hytrach nag argymhellion gan Gyngor Bro Morgannwg i’r Comisiwn eu hystyried. Ychwanegodd y Prif Weithredwr a’r Swyddog Canlyniadau y byddai gan bob person/rhanddeiliad safbwynt unigryw ar eu hardaloedd yn seiliedig ar eu rôl o fewn eu cymunedau a’i bod hi’n bwysig nodi bod sawl cam ar ôl i gynnal yr adolygiad.

I gloi, soniodd y Prif Weithredwr a’r Swyddog Canlyniadau wrth y Pwyllgor am yr wyth prif ystyriaeth gan Gyngor Bro Morgannwg wrth ddatblygu ymateb y Cyngor i gam cyntaf yr adolygiad fel y’i gwelir ym mharagraff 2.8 o’r adroddiad. Gosododd paragraff 2.10 ymlaen y cynigion a awgrymir ar draws ardal Bro Morgannwg, fel y drafodwyd gyda’r gweithgor Trawsbleidiol, i’w hystyried gan y sawl yr

ymgynghorwyd â hwy, ac i hwyluso ystyriaeth fwy manwl yn ystod ail gam yr adolygiad, yn amodol ar gyngor ac arweiniad gan y Comisiwn.

Yn dilyn cyflwyniad y Swyddog o’r adroddiad, a sylwadau dilynol a godwyd gan y Pwyllgor, ychwanegodd y Prif Weithredwr a’r Swyddog Canlyniadau y pwyntiau canlynol o gyngor:

- O ran Cynghorau Tref neu Gymuned nas cyfeiriwyd atyn nhw yn yr adroddiad, roedd hyn yn arwydd nad oedd achos dros newid.
- Nid oedd Cyngor Bro Morgannwg wrthi’n ceisio lleihau nifer y Cynghorau Tref a Chymuned o fewn ei ardal, ond roedd wedi gwneud awgrymiadau yn seiliedig ar y prif ystyriaethau rhagddywededig. Roed yr awgrymiadau yn yr adroddiad yn adlewyrchu’r newid posib i ffiniau a dylid eu hystyried tyn fater o gyfuno Cynghorau. Petai pob awgrym o fewn i‘r adroddiad yn cael ei ddwyn ymlaen gan y Comisiwn, yna fe fyddai nifer y Cynghorau’n lleihau ond nifer y wardiau, o bosib, yn cynyddu yn yr ardaloedd mwyaf poblog. Felly, fe fyddai unrhyw newid yn y dyfodol yn adlewyrchu’r cynnydd a’r lleihad ar draws yr ardal.
- Cafodd ei gydnabod y byddai gan Gynghorau Tref a Chymuned safbwynt cymwys ac unigryw ar y newidiadau a awgrymir ac felly, anogwyd yn gryf i bob Cyngor, yn ogystal â chynrychiolwyr cymunedol unigol, gyflwyno eu sylwadau i’r Comisiwn erbyn 28 Mawrth. Roedd Cyngor Bro Morgannwg yn rhanddeiliad annibynnol o fewn i’r adolygiad ac felly’n cyflwyno ei sylwadau ei hun i’r Comisiwn eu hystyried.
- Roedd camau eraill o’r adolygiad a oedd eto i’w gwneud ond gofynnwyd i gynrychiolwyr etholedig gyflwyno sylwadau yn y camau cychwynnol er mwyn sicrhau bod sylwadau’r wardiau unigol yn cael eu clywed.
- Roedd sylwadau ac awgrymiadau Cyngor Bro Morgannwg yn cael eu gwneud ar lefel strategol ac nid oedd yr awgrymiadau’n mynd i’r afael â materion manwl am ffiniau. Y disgwyl oedd y byddai Cynghorau Tref a Chymuned yn gwneud sylwadau manwl mewn perthynas â’u hardaloedd a’u ffiniau penodol nhw.
- Nid oedd yr awgrym a godwyd gan Gynrychiolydd Cyngor Cymuned Gwenfô mewn perthynas â chreu ward ychwanegol i’w cyngor yn un yr oedd Cyngor Bro Morgannwg wedi’i ystyried o’r blaen ond fe’i cyflwynwyd mewn modd rhesymegol.
- Roedd y ddadl yn y Pwyllgor yn arddangos yr ystod o wahanol farn y bydd rhaid i’r Comisiwn ei hystyried er mwyn llywio’r adolygiad.
- Cafodd ei gydnabod y gallai swyddi Clercod cyflogedig gael eu colli pe byddai Cynghorau Cymuned mwy yn cael eu creu, fodd bynnag, mae eisoes yn arferiad presennol i Glerc unigol gynorthwyo nifer o Gynghorau Cymuned.

Gan na chafwyd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach gan y Pwyllgor, gwnaeth y Pwyllgor hi’n glir y byddai’r sylwadau a’r argymhellion yn cael eu cynnwys o fewn ei benderfyniadau ar yr adroddiad. Yn dilyn hyn, gwnaeth Is-gadeirydd y Pwyllgor gais i gynnal pleidlais ar yr ail argymhelliad a roddwyd o flaen y Pwyllgor.

O’r ddau argymhelliad a roddwyd o flaen y Pwyllgor, pasiwyd Argymhelliad (1) yn ddiwrthwynebiad ac, yn dilyn pleidlais gan Aelodau Etholedig, yn ogystal â chodi dwylo gan Gynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned (a bleidleisiodd yn unfrydol o blaid), pasiwyd Argymhelliad (2) hefyd fel isod.

CYTUNWYD –

(1) I NODI ymateb drafft Cyngor Bro Morgannwg i ymgynghoriad cychwynnol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar gam cyntaf yr adolygiad cymunedol, ynghyd â sylwadau'r Pwyllgor ar yr awgrymiadau a godwyd o fewn yr adroddiad fel a ganlyn:

- Roedd gan Gyngor Cymuned Llan-faes agwedd wledig unigryw iawn o'i gymharu â'i gymydog, Cyngor Tref Llanilltud. Felly, nid oedd Cyngor Cymuned Llan-faes o blaid yr awgrym a nodwyd ym mharagraff 2.16 yr adroddiad gan ddymuno cynnal ei gyngor cymuned gweithgar iawn a'i ysbryd cymunedol dilynol.
- Dewis Cyngor Cymuned Llanfair oedd aros yn gyngor cymuned annibynnol a pheidio â symud i ffiniau cymunedol Cyngor Tref y Bont-faen, fel yr awgrymwyd ym mharagraff 2.29 yr adroddiad oherwydd bod gan Gyngor Tref y Bont-faen bersbectif gwahanol iawn ar y tair cymuned wledig sydd dan y cyngor cymuned ar hyn o bryd. Byddai Cyngor Cymuned Llanfair hefyd am sicrhau bod dwy ward Llanfair a Saint Hilari yn parhau wedi'u diffinio'n dda yng ngoleuni unrhyw newidiadau i'r ffiniau yn y dyfodol.
- Mewn ymateb i'r awgrym a nodwyd ym mharagraff 2.33 yr adroddiad, roedd gan Gyngor Cymuned Sain Dunwyd bryderon y byddai llais cymuned Sain Dunwyd yn cael ei golli pe bai’r broses o uno â ward lawer mwy'r Wig yn mynd yn ei blaen oherwydd y nifer anwastad o gynrychiolwyr ar draws y wardiau cyfunol o ganlyniad.
- Mae Cyngor Cymuned Lecwydd a Llanfihangel-y-pwll yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw uno â chynghorau cyfagos mwy oherwydd bod gan y cyngor cymuned anghenion gwledig penodol iawn o fewn ei gymuned. Roedd hyn mewn cyferbyniad â'r cynigion a gyflwynwyd gan Gyngor Cymuned Dinas Powys fel yr adlewyrchwyd ym mharagraffau 2.19 a 2.20 yr adroddiad.
- Roedd gan Gyngor Cymuned Gwenfô agwedd niwtral at yr awgrym o uno Sain Nicolas a Thresimwn â Dyffryn a Llwyneliddon, fel y nodwyd ym mharagraffau 2.26 a 2.27 yr adroddiad, ond byddai'n croesawu ymgynghori gyda thrigolion ar yr awgrym. Roedd cynnydd o 60% yn nifer yr anheddau yn ardal Gwenfô yn y pedair blynedd diwethaf. Er mwyn sicrhau bod y tua 760 o drigolion yn Brooklands Terrace a St. Lythans Park yn cael eu cynrychioli, mae Cyngor Cymuned Gwenfô yn awgrymu bod ward newydd yn cael ei chreu.
- Cymeradwyodd Cyngor Tref Penarth yr awgrymiadau parthed Cyngor Tref Penarth a ffin ddwyreiniol Cyngor Cymuned Larnog a Sili fel y nodwyd ym mharagraff 2.14 yr adroddiad.

(2) I GYFEIRIO’r adroddiad ar Adolygiad Ffiniau Cymunedol Cyngor Bro Morgannwg i'r Cabinet ar 30 Mawrth 2023, ynghyd ag argymhellion y Pwyllgor i'w

hystyried fel a ganlyn:

- Bod ward newydd o’r enw 'Brooklands' yn cael ei sefydlu dan Gyngor Cymuned Gwenfô i ddarparu ar gyfer yr etholwyr o fewn datblygiadau preswyl Brooklands Terrace a St. Lythans Park yng nghyffiniau Croes Cwrlwys.
- Bod y pryderon a fynegwyd gan y Cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned a oedd yn bresennol yn y cyfarfod ar gadw democratiaeth ar lefel leol i sicrhau bod y llais lleol yn cael ei glywed a bod cymunedau llai yn cael eu cynrychioli'n dda ac yn cadw eu rhinweddau unigryw yn cael eu nodi.
- Bod y pryder mewn perthynas â cholledion cyflog posib i Glercod cynghorau cymuned llai, pe bai eu cyngor yn cael ei uno â chynghorau cyfagos, yn cael ei nodi.

<u>Rhesymau dros y penderfyniad</u>

(1) Wedi ystyried cynnwys yr adroddiad i roi gwybod i’r Pwyllgor Cyswllt â Chymunedau am ymateb y Cyngor i ymgynghoriad cychwynnol Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru ar gam cyntaf yr adolygiad cymunedol.

(2) I roi gwybod i’r Cabinet am argymhellion y Pwyllgor mewn perthynas ag ymateb drafft Cyngor Bro Morgannwg i gam ymgynghori cychwynnol yr adolygiad cymunedol er mwyn llywio unrhyw sylwadau neu arsylwadau ychwanegol gan y Cabinet a fyddai’n cael eu hanfon at y comisiwn mewn amlen ar wahân yn dilyn dyddiad cau’r ymgynghoriad sef 28 Mawrth.